

## Canllawiau drafft ar addysg cydberthynas a rhywioldeb 2018

### Ffurflen Ymateb

i'r

### Ymgynghoriad

Eich enw: Catherine Phillips

Sefydliad (os yn berthnasol):  
Cymorth i Ferched Cymru

e-bost/rhif ffôn:

[Catherinephillips@welshwomensaid.org.uk](mailto:Catherinephillips@welshwomensaid.org.uk)

Eich cyfeiriad: Tŷ Pendragon, Plas Claxton, Caerdydd,  
CF23 8XE

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn Ebrill <sup>1af</sup> 2019 at

Tîm Iechyd a Lles MDPH  
Cangen y Celfyddydau, y Dyniaethau a Llesiant  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu eu cwblhau yn electronig a'u hafnon at:

e-bost: [RSEGuidance@gov.wales](mailto:RSEGuidance@gov.wales)

**Cwestiwn 1** – Rydym wedi newid enw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Ydy'r cyflwyniad yn y canllawiau newydd yn esbonio cwmpas a chyd-destun Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn llawn?

Ydy	<input type="checkbox"/>	Nac ydy	<input checked="" type="checkbox"/>	Ansicr	<input type="checkbox"/>
-----	--------------------------	---------	-------------------------------------	--------	--------------------------

**Sylwadau ategol (dim mwy na 250 gair)**

Er mwyn i athrawon neu ymarferwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael digon o ddealltwriaeth o ddifrifoldeb newid yr enw a'i effaith ddilynol, mae angen esboniad llawnach a ddylai gynnwys y diffiniad gwirioneddol gan Sefydliad Iechyd y Byd (gweler isod) er mwyn negyddu unrhyw ragdybiaethau o ymwybyddiaeth.

Mae hyn yn atgyfnerthu Argymhellion Panel o Arbenigwyr Dyfodol Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru i newid yr enw i bwysleisio, "Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gynhwysol, holistig, sy'n seiliedig ar hawliau a chyd-raddoldeb rhywiol."

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio **rhywioldeb** gyda'r canlynol: "...mae agwedd ganolog o fod yn ddynol drwy gydol oes yn cwmpasu rhyw, hunaniaethau a rolau rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, erotiaeth, pleser, agosatrwydd ac atgenhedlu. Caiff rhywioldeb ei brofi a'i fynegi mewn meddyliau, ffantasïau, dyheadau, credoau, agweddau, gwerthoedd, ymddygiadau, arferion, rolau a pherthnasoedd. Er bod rhywioldeb yn gallu cynnwys pob un o'r dimensiynau hyn, nid yw pob un ohonynt bob amser yn cael ei brofi na'i fynegi. Dylanwadir ar rywioldeb gan y rhyngweithio rhwng ffactorau biolegol, seicolegol, cymdeithasol., economaidd, gwleidyddol, diwylliannol, cyfreithiol, hanesyddol, crefyddol ac ysbrydol." (*Sefydliad Iechyd y Byd*, 2006a)

Ac **lechydd rhywiol** fel: "cyflwr o les corfforol, meddyliol a chymdeithasol mewn perthynas â **rhywioldeb**. Mae'n gofyn am ymagwedd gadarnhaol a pharchus tuag at **rywioldeb** a pherthnasoedd **rhywiol**, yn ogystal â'r posibilrwydd o gael profiadau **rhywiol** pleserus a diogel, yn rhydd rhag gorfodaeth, gwahaniaethu a thrais."

Fel y nodir yn y diffiniadau hyn, mae'n bwysig sefydlu'r cysylltiad rhwng y newid enw o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac effaith sicrhau bod plant a phobl ifanc yn medru mwynhau perthnasoedd cyfartal, diogel ac iach sy'n rhydd rhag trais a chamdriniaeth.

**Cwestiwn 2** – Strwythurwyd y canllawiau hyn o amgylch 'dull ysgol gyfan'. A yw'n glir beth yw 'dull ysgol gyfan'? A yw'r canllawiau hyn yn eich cynorthwyo i gyflawni hyn?

Ydyn	<input type="checkbox"/>	Nac ydyn	<input checked="" type="checkbox"/>	Ansicr	<input type="checkbox"/>
------	--------------------------	----------	-------------------------------------	--------	--------------------------

## Sylwadau ategol (dim mwy na 250 gair)

Mae angen i wybodaeth am y 'dull ysgol gyfan' fod yn gyson ag Argymhellion Panel o Arbenigwyr Dyfodol Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru. Mae angen i'r canllawiau hefyd ddadlau bod y 'dull ysgol gyfan' yn hanfodol er mwyn sicrhau na chaiff gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb eu dibrisio na'u tanseilio ar draws gwahanol rannau o'r ysgol a'r gymuned, a'u bod yn fwy tebygol o greu newid diwylliannol parhaus.

Effaith hyn ar y dysgwyr unigol yw mwy o ymwybyddiaeth o ddiogelwch a pharch, a fydd yn cyfateb i gynnydd mewn atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Er mwyn gwneud cysylltiadau hanfodol â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, mae angen cyfeirio'n fwy amlwg ac eglur at ganllaw cyfredol Llywodraeth Cymru, *Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru*<sup>1</sup> fel dogfen ategol yn y canllawiau. Mae'r canllaw hwn, a grëwyd ar y cyd gan Cymorth i Ferched Cymru, yn nodi arferion da sy'n bodoli eisoes a phwysigrwydd dull 'ysgol gyfan' aml-haen i roi'r cymorth sydd ei angen ar blant, drwy naw maes allweddol. Mae hyn yn cynnwys:

- Hyfforddiant staff a gynigir ym mhob ysgol yn unol â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
- Plant a phobl ifanc, staff a rhieni/gofalwyr yn cymryd rhan weithredol i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n cynnwys plant hŷn yn cael eu hyfforddi i fentora rhai iau a/neu gyflwyno gweithdai neu wasanaethau ar bynciau perthnasol a rhieni ac athrawon yn cael mynediad at wybodaeth ac yn cael eu hannog i arwain sgysiau neu raglenni.
- Mynediad at arbenigwyr lleol a chysylltiadau â gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Cwestiwn 3** – Dylid darllen y canllawiau drafft ochr yn ochr â'r adran gyfeirio ac atodiadau A, B a C. A ydy'r atodiadau a'r cysylltiadau cyfeirio yn ddefnyddiol ac yn cynnig gwybodaeth?

<b>Ydyn</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Nac ydyn</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ansic</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
-------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

## Sylwadau ategol (dim mwy na 250 gair)

Fel y corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector

<sup>1</sup> Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru 2015

sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (sy'n cynnwys ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac aelodau rhanbarthol Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol), mae angen gosod Cymorth i Ferchced Cymru yn Atodiad C.

Mae angen i'r adran "cydraddoldebau" gynnwys digon o adnoddau a sefydliadau sy'n gallu cefnogi athrawion a myfyrwyr ynghylch deall a chyflawni cydraddoldeb, ochr yn ochr â'r mudiadau LGBT sy'n cael sylw ar hyn o bryd, megis [Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod](#), [Race Equality First](#), [Anabled Cymru](#), [Cynghrair Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#) a [Diverse Cymru](#). Nid yw'r Prosiect Sbectwm, o dan Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn sefydliad, fodd bynnag mae'n adnodd hyfyw i ysgolion sy'n chwilio am gymorth ynghylch sut i siarad â phlant a phobl ifanc am berthnasoedd iach.

Mae angen mwy o amrywiaeth o ran sefydliadau cymorth o dan 'cam-drin rhywiol', yn hytrach na'r NSPCC yn unig. Ymhlith mudiadau eraill sy'n gweithio yn y sector hwn yng Nghymru mae [Stepping Stones](#), [Horizon](#), [The Survivor's Trust](#), [Stop it Now! Wales](#), [Meic](#) a [Young Minds](#).

Ar hyn o bryd, nid yw'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth ddigonol ynghylch gweithdrefnau cyfeirio ar gyfer gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi goroeswyr cam-drin, nac ychwaith ynghylch sut i ymdrin â datgeliadau o drias yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae angen i athrawon ac ysgolion fod yn ymwybodol bod llinell gymorth Byw Heb Ofn Llywodraeth Cymru, a ddarperir gan Cymorth i Ferched Cymru, hefyd yn adnodd proffesiynol y gellir ei ddefnyddio os oes angen cyngor neu gymorth ar staff ac athrawon o ran lles myfyriwr (neu eu lles eu hunain).

Byddai'r canllawiau hefyd yn elwa o gynnwys 'Argymhellion Panel o Arbenigwyr Dyfodol Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru' a 'Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru', y cyfeiriwyd ato uchod.

**Cwestiwn 4** – Dylid darllen y canllawiau drafft ochr yn ochr â'r adran gyfeirio ac Atodiadau A, B a C. A ydyw'n glir bod yn rhaid ystyried yr adran gyfeirio a'r atodiadau ac a yw hyn yn ddefnyddiol ac ymarferol?

<b>Ydy</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Nac ydy</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ansicr</b>	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------	--------------------------

**Sylwadau ategol (dim mwy na 250 gair)**

Mae'n glir y dylid defnyddio'r atodiad i ategu'r canllawiau, byddai'n elwa fodd bynnag o fod yn fwy cynhwysfawr, gan ddangos cwmpas gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Dylai hefyd gynnwys cyd-destun y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar ffurf Argymhellion Panel o Arbenigwyr Dyfodol Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru a Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru

Dylai Llinell Gymorth Byw Heb Ofn hefyd gael ei hyrwyddo'n amlwg ym mhob adran o'r canllawiau.

**Cwestiwn 5** – A ydych chi'n credu bod pob adran o'r canllawiau drafft yn glir ac yn esbonio'r hyn a fyynnir gan athrawon ac ysgolion?

<b>Ydw</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Nac ydw</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Ansicr</b>	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	-------------------------------------	---------------	--------------------------

### Sylwadau ategol (dim mwy na 250 gair)

Mae'n bwysig bod athrawon yn ymwybodol o unrhyw faterion a allai/fydd yn codi o ganlyniad i'r sesiynau sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel y gall disgyblion dderbyn cymorth o fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae hyn yn ogystal â mynediad at gyfeirio digonol, fel bod athrawon yn gwybod i ble y gallant fynd am gymorth ychwanegol, a gwrando ar y rhiant nad yw'n cam-drin pan fydd yn lleisio pryderon.

Ochr yn ochr â chwrciwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sydd wedi'i lywio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae angen ymgysylltu a gwneud cysylltiadau gyda gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ardal yr ysgol er mwyn cefnogi athrawon a myfyrwyr os oes angen unrhyw gymorth parhau arnynt, rhywun i siarad ag ef/hi neu sefydlu llwybr atgyfeirio mwy ffurfiol. Wrth i ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bob math o gam-drin gynyddu, felly hefyd gall y risg iddynt. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol i blentyn neu berson ifanc sy'n byw mewn cartref lle mae cam-drin neu sy'n dioddef camdriniaeth yn ei pherthynas/berthynas ei hun, gan fod addysg, yn anuniongyrchol, yn medru newid ei 'normau'. Mae'n hanfodol bod y cwricwlwm yn cynnwys cynyddu gallu plant a phobl ifanc i geisio cymorth<sup>2</sup>, a bod ysgolion wedi'u cysylltu â gwasanaethau priodol.<sup>3</sup>

*[Cyn hyn] roeddwn i'n llawer mwy gofidus ac yn poeni am fy iechyd meddwl a'm lles, [nawr] dwi ddim yn gofidio cymaint am pa mor wael yw fy mhroblemau (goroeswr, 12)*

Ni ddylid diystyru ychwaith yn y cyd-destun hwn bwysigrwydd hyfforddi athrawon i adnabod a mynd i'r afael â dulliau ac iaith sy'n creu mwy o anghydraddoldebau rhyw a rhywedd yn ymwneud â chyrrhaeddiad academiaidd, cyflawniad a dyheadau, gan y bydd yn cael effaith uniongyrchol ar gynaliadwyedd a llwyddiant cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.<sup>4</sup>

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn offeryn allweddol i gadw plant yn ddiogel rhag trais a cham-drin ac mae'n chwarae rôl hollbwysig o ran meithrin a gwreiddio normau pa ymddygiad sy'n dderbyniol ac nid rhwng cyfoedion, yn enwedig

<sup>2</sup> Miller, D. & Brown, J. (2014) We have the right to be safe: Protecting disabled children from abuse: Executive summary. NSPCC

<sup>3</sup> Ydych chi'n gwrando ac ydw i'n cael fy nghlywed? Cymorth i Ferched Cymru, Mawrth 2016, [http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Are\\_you\\_listening\\_and\\_am\\_I\\_being\\_heard\\_FINAL\\_July\\_2016.pdf](http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Are_you_listening_and_am_I_being_heard_FINAL_July_2016.pdf)

<sup>4</sup> Jones, K., Evans, C., Byrd, R., Campbell, K. (2000) Gender equity training and teacher behavior. *Journal of Instructional Psychology*, 27 (3), 173-178, <http://www.freepatentsonline.com/article/Journal-Instructional-Psychology/66355136.html>

yng nghyd-destun defnyddio'r Dull Addysg Gyfan i hyrwyddo mwy o gydraddoldeb rhywiol fel arf i leihau trais yn erbyn menywod a merched.

**Cwestiwn 6** – Gan ystyried pob un o'r adrannau, ydych chi'n teimlo bod:

- unrhyw fylchau yn y wybodaeth? Ac os felly, beth ydych chi'n teimlo y dylid ei ychwanegu a fyddai'n ddefnyddiol ac o gymorth wrth i chi gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?
- unrhyw rannau sy'n arbennig o ddefnyddiol?

- Gwella'r drefn drwy farcio penawdau ac is-benawdau gyda rhifau (e.e. 1, 1,1, 1.2 ac ati).
- Sicrhau bod pob acronym wedi'i ysgrifennu'n gyflawn (gan gynnwys geirfa, pe bai angen).
- Gosod dogfennau ategol, sydd wedi'u cwblhau, o fewn yr atodiad, yn hytrach na hyperddolenni, a chynnwys rhestr adnoddau gynhwysfawr gyda sicrwydd ansawdd sy'n cynnwys gwefannau a deunyddiau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac nid asiantaethau materion unigol yn unig nad ydynt, llawer ohonynt, yn darparu cymorth ynghylch addysgu a dysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion a'r dull a hyrwyddir yn y canllawiau.
- Nodi'n glir yn y cyflwyniad beth yn hollol bydd yn cael ei ddarparu i'r ysgolion o ran cynnwys gwersi, cynlluniau gwersi ac adnoddau a awgrymir ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Gosod llinell amser wedi'i chefnogi ar gyfer hyfforddi, datblygu a chyflwyno cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Darparu gwybodaeth ynghylch ble y gall athrawon fynd i dderbyn hyfforddiant a chymorth pellach er mwyn ei hwyluso.
- Sicrhau bod llwybrau atgyfeirio clir ar waith o fewn yr adran datgelu. Mae angen i hyn gynnwys mwy o bwyslais drwy gydol y broses ar ddiogelu plant a'u harfogi â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r iaith i nodi a yw cam-drin ac esgeulustod yn digwydd iddyn nhw a phwy yw'r oedolion diogel y gallan nhw droi atyn nhw am gymorth.
- Cynnwys gwybodaeth o dan yr adran Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ynghylch gwahanol fathau o gam-drin (cam-drin rhywiol, cam-drin economaidd, rheolaeth gymhellol, cam-drin domestig, cam-drin emosiynol, cam-drin seicolegol).
- Newid yr iaith o gylch plant 'yn bod yn dyst' i gamdriniaeth. Nid oes y fath beth ag effaith anuniongyrchol trais a cham-drin ar blant a phobl ifanc. Mae tystiolaeth yn dangos bod plant yn dioddef cam-drin domestig nid yn unig fel tystion ond hefyd fel dioddefwyr (Katz, 2015), (Callaghan, 2015). Mae cam-drin domestig yn creu amgylchedd gofidus, ingol a niwedol a gall canlyniadau hirdymor y trawma barhau tra'u bod yn oedolion a gall effeithio ar blant mewn ffyrdd gwahanol.
- Hoffai Cymorth i Ferched Cymru bwysleisio pwysigrwydd ymarferydd arweiniol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a hwnnw/honno wedi'i (d)dynodi a'i hyfforddi i ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'i wneud yn rhan annatod o ddull ysgol gyfan, fel yr argymhellwyd gan y Panel Arbenigol. Mae'r canllawiau cyfredol wedi'u hysgrifennu ar gyfer athrawon na fyddant yn arbenigwyr arno. Caiff hwn

effaith sylweddol ar yr athrawon unigol, ar yr ymgysylltu â'r myfyrwyr ac, o bosibl, ar les y rheini yn yr ysgol.

- Dylid gwneud cysylltiadau cryfach drwy gydol y canllawiau â gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Dylid gwneud cysylltiadau penodol â'r Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ymdrinnir â cham-drin domestig ar hyn o bryd, ond nid yw trais rhywiol yn amlwg.
- Nodi ac adnabod natur cam-drin ar sail rhywedd fel dull o ddeall bod anghydraddoldeb rhywiol yn achos ac yn ganlyniad i drais yn erbyn menywod a merched.
- Atgyfnerthu'r defnydd o'r llinell gymorth Byw Heb Ofn fel adnodd proffesiynol yn yr adran hon.

**Cwestiwn 7** – A ydych chi'n cytuno â'r dull a amlinellwyd yn yr adran 'ymgysylltu â rhieni/gofalwyr/cymuned' ynghylch sut y dylai ysgolion gynllunio a datblygu eu polisïau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

### Sylwadau ategol (dim mwy na 250 gair)

Mae angen i ysgolion feddu ar yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i roi cyhoeddusrwydd priodol i fanteision y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd a sut y mae'n cyd-fynd â saith nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>5</sup>.

Bydd gweithio gyda rhieni yn hanfodol i sicrhau llwyddiant Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Gellir cyflawni hyn drwy:

- Hysbysu rhieni ynghylch y rhaglen addysg, pryd y mae'n digwydd a beth fydd yn cael ei drafod
- Anfon nodiadau ar gyfer trafodaeth yn y cartref i reini drafod gyda'u plant
- Gwahodd rhieni i gymryd rhan mewn gweithdai teuluol a datblygu perthnasoedd ac annog cyfathrebu da rhwng rhieni a phlant
- Cyflwyno gweithdai a chysiau ar gyfer rhieni<sup>6</sup>.

Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â naw elfen allweddol y Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol<sup>7</sup>, sy'n dadlau dros yr angen i rieni, gofalwyr ac aelodau o'r teulu ddysgu am bob math o gam-drin er mwyn cefnogi lles plant a phobl ifanc. Mae Cymorth i Ferched Cymru o'r farn y dylid ymdrin ag unrhyw bryderon a godir gan rieni a gofalwyr drwy bolisïau arferol yr ysgol a dylid gwneud penderfyniadau ar

<sup>5</sup> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, <http://futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act/>

<sup>6</sup> [http://www.preventionplatform.co.uk/?tudalen\\_id=2324](http://www.preventionplatform.co.uk/?tudalen_id=2324)

<sup>7</sup> Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Llywodraeth Cymru, 2017: [https://www.cardiff.ac.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0007/522394/A-Whole-Education-Approach-to-Violence-Against-Women,-Domestic-Abuse-and-Sexual-Violence-in-Wales.pdf](https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0007/522394/A-Whole-Education-Approach-to-Violence-Against-Women,-Domestic-Abuse-and-Sexual-Violence-in-Wales.pdf)



sail pob achos unigol. Dylid gwneud hyn trwy roi blaenoriaeth i sgysiau a chodi ymwybyddiaeth gyda'r bobl sydd o dan sylw. Er mwyn i'r dull hwn fod yn effeithiol, mae'n rhaid i ymarferwyr gael eu hyfforddi'n llawn a bod yn hyderus yn y dull Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

**Cwestiwn 8** – A ydych chi'n teimlo bod y canllawiau'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ymgysylltu'n ystyrlon gyda'ch dysgwyr i gynllunio eich darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?

<b>Ydw</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Nac ydw</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ansicr</b>	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------	--------------------------

**Sylwadau ategol (dim mwy na 250 gair)**

N/A

**Cwestiwn 9** – Pa fath o hyfforddiant, cymorth neu adnoddau yr hoffech eu gweld i helpu i gefnogi gweithrediad llwyddiannus y canllawiau?

- Mae angen sefydlu rhaglen hyfforddi ddiffiniol ag amserlen iddi, i'w chyflwyno gan hyfforddwyr arbenigol sydd â dealltwriaeth drylwyr o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Mae angen i hyfforddinat fod yn barhaus er mwyn sicrhau bod staff yn teimlo eu bod wedi'u cefnogi'n llwyr a bod safon y sesiynau yn gyson uchel.
- Rhaglen o hyfforddiant am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, wedi'i chyflwyno gan hyfforddwyr arbenigol. Mae Grŵp Gofyn a Gweithredu 6 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol wedi'i anelu at arweinyddwyr y sector cyhoeddus, sy'n cynnwys Prifathrawon. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys cyfres o ffilmiau byr ynghylch cryfhau arweinyddiaeth, pob un yn ymdrin â mater pwysig yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai hyfforddiant Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mwy cynhwysfawr a phwrpasol gael ei gyflwyno ochr yn ochr â dull sydd wedi'i lywio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn sicrhau y caiff polisïau ac adnoddau cyfredol eu hintegreiddio.
- Dylai athrawon ac ymarferwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael mynediad at hyfforddiant parhaus ar bob math o gam-drin ac ar sut i ddelio â datgeliadau.

**Cwestiwn 10** – Os nad ydych yn arbenigwr sy'n darparu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd/Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eich ysgol, a ydy'r canllawiau hyn yn ddigonol i'ch cynorthwyo i gynllunio a chyflwyno'r rhain ar gyfer eich dysgwyr?

<b>Ydyn</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Nac ydyn</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ansicr</b>	<input type="checkbox"/>
-------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	---------------	--------------------------



## Sylwadau ategol (dim mwy na 250 gair)

I gefnogi a hwyluso cyflwyno Addysg Rhyw a Pherthnasoedd/Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae gwith wedi'i wneud gan y trydydd sector i ddatblygu offer i gyflwyno mewn lleoliadau addysgol lle y gellir meithrin yn awr ac yn y dyfodol agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhywiol a pherthnasoedd iach a pharchus. Mae hyn yn cynnwys:

**AGENDA: Canllaw i Bobl Ifanc ar Wneud i Berthnasoedd Cadarnhaol Gyfri**<sup>8</sup> yw canllawiau cenedlaethol cyntaf Cymru i bobl ifanc ar sut y gallant, yn ddiogel ac yn greadigol, wneud i berthnasoedd cadarnhaol gyfri. Cafodd ei greu ar y cyd rhwng Prifysgol Caerdydd; Comisiynydd Plant Cymru; Cymorth i Ferched Cymru a'r NSPCC, a'i nod yw cynorthwyo pobl ifanc i ymarfer eu hawliau, i gael eu hysbrydoli gan straeon pobl eraill ac i gefnogi ei gilydd wrth gychwyn rhannu a newid yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae **S.T.A.R (diogelwch, ymddiriedaeth a pharch)**, sy'n gyfres o wasanaethau, yn ystod o raglenni grŵp sydd wedi'u creu i addysgu plant a phobl ifanc am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac i gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi ei ddioddef naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Anelir y rhaglenni sy'n canolbwyntio ar gymorth at blant iau, o 4 i 11 oed, a chânt eu cyflwyno gan aelodau gwasanaethau arbenigol Cymorth i Ferched Cymru yn unig, gan weithwyr plant ymroddedig, er mwyn cydnabod pwysigrwydd cyflawni'r gwaith hwn yn foesebol ac yn briodol. Mae rhaglenni ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc (11-25 mlwydd oed) yn ataliol (dylid nodi, fodd bynnag, fod blaenoriaeth yn cael ei roi i'r rhai sydd â phrofiad o gam-drin domestig) a chânt eu cyflwyno'n aml mewn clybiau ieuencid ac ysgolion i hysbysu plant a phobl ifanc am faterion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn y gorffennol mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cynllunio trafodaethau grwpiau ffocws trafodaethol i geisio rhoi cyfle i blant a phobl ifanc siarad am raglen S.T.A.R.

**Cwestiwn 11** – Hoffem wybod eich barn ar effeithiau'r canllawiau diweddaraf ynghylch cydberthnasoedd a rhywioldeb ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Pa effeithiau fyddai'r rhain yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

## Sylwadau ategol

Byddai Cymorth i Ferched Cymru yn annog bod y defnydd o'r Gymraeg yr un mor gadarn â'r Saesneg (er enghraifft nad oes unrhyw gamau yn y cwricwlwm lle mae'n

<sup>8</sup> <http://agenda.wales/>

rhaid i berson droi'n ôl at y Saesneg) a bod modd defnyddio'r Gymraeg ym mhob cam o'r cwricwlwm. Anogwn hefyd ei fod yn glir bod plentyn neu berson ifanc yn medru gwneud datgeliad yn y Gymraeg a bod y gallu i ymateb yn y Gymraeg yn cael ei hybu er mwyn sicrhau cynwysoldeb ym mhob cyd-destun.

**Cwestiwn 12** – Esboniwch yn ogystal, os gwelwch yn dda, sut rydych yn credu y dylai'r canllawiau arfaethedig ar gydberthnasoedd a rhywioldeb gael eu llunio neu eu newid er mwyn cael:

- i) effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg
- ii) dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

### Sylwadau ategol

Gweler uchod

**Cwestiwn 13** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi os gwelwch yn dda.

Mae'r paragraff sy'n nodi rhan o addysg rhyw a pherthnasoedd, dylid addysgu disgyblion am "natur a phwysigrwydd priodas i fywyd teuluol a magu plant" yn broblematic o safbwynt trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chynwysoldeb, er gwaethaf y cyfeiriad yn ddiweddarach yn y paragraff sy'n nodi na ddylai plant brofi unrhyw "stigmatiddio." Bydd norm cymdeithasol-ddiwylliannol priodas fel rhagofyniad i fywyd cartref hapus a sefydlog yn achosi niwed i blant o gartrefi un rhiant a pherthnasoedd un rhyw, a galli effeithio ar eu symudedd cymdeithasol, addysgol ac economaidd, sef y gwrthosodiad i gwricwlwm cynhwysol, holisitg sy'n annog ac yn cefnogi plant i 'gyflawni eu potensial'.

Mae rolau'r wraig a'r fam ar sail rhywedd hefyd yn cael eu defnyddio fel mecanweithiau i atgyfnerthu rheolaeth mewn perthnasoedd camdriniol ac yn cyfrannu at gywilydd goroeswr pan ddaw'n fater o ymadael â phriodas. Ni ddylai goroeswyr sydd wedi dianc rhag perthynas gamdriniol gael eu stigmatiddio oherwydd eu dewis i ymadael. Mae hyn yn hanfodol gan y gallai'r iaith bresennol sy'n ymwneud â ffafrio priodas roi plant mewn mwy o berygl a gelyniaethu ymhellach rieni sengl sy'n ceisio cael cymorth. Felly mae Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell yn gryf y dylid diwygio'r geiriad hwn.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell y diwygiad canlynol i'r geiriad:

"Fel rhan o addysg rhyw a chydberthynas, dylid addysgu disgyblion am natur a phwysigrwydd amgylchedd cartref sefydlog, iach i fagu plant, sy'n cynnwys perthynas gyfartal, barchus fel conglaen adeiladu ar gyfer cymuned a chymdeithas."

Yn ail, yn ôl argymhellion y Panel Arbenigol, roedd pob ysgol i fod i gael ymarferydd dynodedig ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar draws blynyddoedd 7, 8 a 9.

Fel y nodwyd eisoes, Cafodd y canllawiau cyfredol eu hysgrifennu ar gyfer athrawon nad ydynt yn arbenigwyr ar y rôl Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Caiff hyn effaith sylweddol ar athrawon unigol, ar yr ymgysylltu â disgyblion ac, o bosibl, ar les pawb yn yr ysgol.

Hoffai Cymorth i Ferched Cymru bwysleisio pwysigrwydd yr argymhelliad hwn i gael Ymarferydd dynodedig ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a holi ymhellach sut y gellir cefnogi athrawon orau er mwyn sicrhau cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb effeithiol? Dylid ychwnaegu eglurhad at y canllawiau ynghylch y pwynt hwn.

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma os gwelwch yn dda:

